**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1379
Ein cyf/Our ref JJ/02927/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Tachwedd 2023

Annwyl Jack Sargeant,

Diolch am eich llythyr ar 26 Medi ynghylch Deiseb P-06-1379 mewn perthynas â'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yng Nghymru.

Rwy'n rhannu'r pryderon a godwyd yn y ddeiseb hon ac yn cytuno bod angen gweithredu ar fepio untro i amddiffyn iechyd y cyhoedd, atal defnydd gwastraffus o adnoddau ac atal y cynhyrchion hyn rhag cael eu taflu yn ein hamgylchedd. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori â gwledydd eraill y DU ar gynigion i greu cenhedlaeth ddi-fwg drwy godi oedran gwerthu tybaco. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym yn ceisio barn ar gynigion i gyfyngu ar gyflenwi a gwerthu cynhyrchion fepio tafladwy. Mae disgwyl i'r ymgynghoriad ddod i ben ar 6 Rhagfyr ac mae modd cael mynediad ato drwy wefan Llywodraeth y DU.

[Creating a smokefree generation and tackling youth vaping: your views - GOV.UK (www.gov.uk)]

Credaf fod dull cydweithredol ledled y DU yn hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â chynhyrchion o'r fath ac yn ddiweddar cwrddais â Gweinidogion ac uwch swyddogion o bob rhan o'r DU ym mis Medi i drafod y ffordd orau o gyflawni hyn. Cytunwyd y byddem yn gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effeithiau fepio untro, hyd at a chan gynnwys gwaharddiad. Mae gweithgor ledled y DU bellach wedi'i sefydlu i helpu i gasglu tystiolaeth a datblygu ein cynigion.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad pedair gwlad ar Ddiwygio Cyfrifoldeb Cynhyrchydd Estynedig. Mae hyn yn cydnabod effaith amgylcheddol feps ac yn cynnig categori newydd o offer ar gyfer feps er mwyn sicrhau bod cynhyrchwyr yn ariannu'r gost o'u casglu a'u trin yn llawn. Rwy'n cefnogi'r dull hwn yn llwyr a hoffwn weld y rheolaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchydd newydd yn cael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Llywodraeth Cymru yn glir bod yn rhaid i'r dirwedd reoleiddiol mewn perthynas â feps newid a gallaf eich sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change